

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

CYFARFOD MICROSOFT TEAMS am 8.00 p.m.17fed o Fis Mai 2021

Yn Bresennol: Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Elsbeth Page.

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones, Cyng. Eurig Rees, Cyng. Phillip Jones , Cyng. Wyn Evans a'r Cyng. Sir, Irfon Jones.

Materion Personol / Cyhoeddiadau

11	<u>Datgelu Buddianau Personol</u> Dim
12	Cadarnhau'r Cofnodion - 26.04.21 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26.04.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Delme Phillips ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.
13.	<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>
a.	<u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau - Mae'r Clerc i wneud holiadur er mwyn cofnodi'r galw am gwasanaeth bws rheolaidd drwy Hermon.
b.	<u>Safle Ail-gylchu</u> -y mater yn parhau - Dim datblygiad newydd ar hyn o bryd.
c.	<u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> -Dyweddod y Cyng. Elfed Davies wrth y Cyngor bod y gwaith paratoi yn mynd ymlaen er mwyn agor y Cylch Meithrin ym mis Medi 2021.
d.	<u>Cais a bin sbwriel yng Ngwmduad -Mae'r Clerc</u> wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir ar fwy nag un achlysur ond heb derbyn ymateb hyd yma. Clerc i ddilyn y mater lan.
14.	<u>Gohebiaeth</u> <u>Mae</u> copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.
.	
15	<u>Cynllunio</u> Dim
16(a)	<u>Taliadau a Chyllud</u> <u>Cyflog y Clerc - Mis Mawrth 2021</u> £210.10 <u>Clay Shaw a Butler -Gwaith Trefnu Cyflog am y flwyddyn daeth i ben 31.3.21</u> £288.00 Cytunodd y Cyngor i wneud y taliadau uchod.
b.	Derbyniwyd taliad cyntaf o'r praesept , sef £4,943.00 ar 30fed o fis Ebrill.

<p>17</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p> <p>f.</p> <p>g.</p> <p>h.</p> <p>i.</p>	<p><u>Materion Priffyrdd</u></p> <p>Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc i gysylltu â Cyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn a:</p> <p>Blaenycoed - Wernant - Clunbach - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol wael.</p> <p>Clymog Japan wedi'i darganfod yn tyfu ar ochr y ffordd SA33 6EY</p> <p>Gorllwyn - i Pum Heol - Tyllau mawr yn y ffordd yn broblem difrifol</p> <p>Capel Hermon i Waunolau - Cwypm yn y ffordd yn creu rhych drwy Hermon a gratiau rhydd yn creu peryg.</p> <p>SA33 6ET-mae angen modd i dawelu traffig a gostyniad yn y terfyn ar cyflymder i 30 mya.</p> <p>Cynwyl Elfed SA33 6TL ar bwys Llysnewydd - gratin/gwter wedi blocio. Wedi'i lenwi â malurion/dail.</p> <p>Esgair - man aros - Malurion cafodd ei gadael yn dilyn gwaith ar y ffordd yn dal i fod yn broblem.</p> <p>A484-gweithfeydd ffyrdd diweddar-mannau lle bu'r goleuadau ffyrdd yn sefyll - angen eu glanhau ac adnewyddu gwyneb y ffyrdd.</p> <p>Piben oedd yn croesi dros afon Gwili, cyferbyn a chware GD Harries, wedi torri ac yn yr afon. Angen cael gwybod pwy sydd yn gyfrifol am y biben er mwyn holi iddynt dynnu y biben i ffwrdd a'i wneud yn ddiogel.</p>
<p>18</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><u>Unrhyw Mater Arall</u></p> <p>Trafodwyd amserau agor ac hefyd cost cynnal a chadw adeilad toiledau Cynwyl Elfed a penderfynodd y Cyngor dylai'r Clerc wneud ymholiadau ynghylch faint byddai'r gost i'r Cyngor i gadw'r toiledau ar agor lan hyd 7 pm am y 7 diwrnod ô bob wythnos.</p> <p>Mae aelodau o'r cyhoedd wedi cysylltu â chynghorwyr ynghylch y cynnydd mewn carafanau statig yn yr ardal. Penderfynodd y Cyngor bod y Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Bryan Davies yn ymchwilio i'r mater gan roi adroddiad o'u canfyddiadau yng nghyfarfod mis Mehefin.</p>
<p>19</p>	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Nos Lun 21af o fis Mehefin 2021 am 19.30 awr</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 21.00 awr</p>

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....